Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau
www.njrcentre.org.uk
Gweithio ar ran cleifion, hyrwyddo ansawdd

Gwella eich profiad o newid cymal

Taflen am y ffordd y mae Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau yn helpu cleifion

Sut mae'r NJR yn helpu cleifion?

Mae Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (NJR) yn cofnodi manylion llawdriniaethau newid cymal er mwyn monitro canlyniadau'r llawdriniaethau newid cymal a diogelu'r cleifion. Rydym yn rhoi gwybodaeth a thystiolaeth i:

- Helpu llawfeddygon i ddewis y cymalau (impiadau) artiffisial gorau ar gyfer cleifion
- Rhoi grym i gleifion trwy eu helpu i ddod i wybod mwy am yr impiadau sydd ar gael iddyn nhw
- Gwella diogelwch cleifion trwy edrych sut mae impiadau, llawfeddygon ac ysbytai yn perfformio a gweithredu ble bo angen
- Rhoi adborth i ysbytai, llawfeddygon a gwneuthurwyr impiadau am eu perfformiad i'w helpu i wella gofal i gleifion
- Helpu llawfeddygon i benderfynu'n gyflym a oes angen i gleifion ddod yn ôl i'r ysbyty os bydd problemau gydag impiadau

Rhywbeth gwirfoddol yw rhoi eich cydsyniad ond mae **mwy na 9 o bob 10** o gleifion yn cytuno i gael ychwanegu eu manylion ar yr NJR

Pa wybodaeth sy'n cael ei chasglu?

Bydd eich ysbyty yn rhoi manylion penodol am eich llawdriniaeth i'r NJR, fel y math o impiad gawsoch chi, pa dechneg lawfeddygol gafodd ei defnyddio, ar ba ochr o'ch corff y rhoddwyd yr impiad, eich oed a'ch rhyw.

Mae'r NJR yn gofyn i bob claf roi ei ganiatâd (cydsyniad) i gael cofnodi manylion personol gyda manylion eu llawdriniaeth – mae hyn yn golygu bod yr NJR yn gallu gwneud ei gwaith yn fwy effeithiol.

Dylai eich ysbyty ofyn i chi a ydych yn fodlon cydsynio a dangos **ffurflen ganiatâd cleifion NJR** i chi

NJR ac ymchwil

Gellir defnyddio gwybodaeth am lawdriniaethau a chleifion yn yr NJR ar gyfer ymchwil feddygol. Pwrpas y gwaith ymchwil hwn yw gwella'r driniaeth ar gyfer problemau gyda chymalau.

Mae mwyafrif ein gwaith ymchwil yn defnyddio gwybodaeth ddi-enw'n unig, gan olygu ei bod yn amhosib gwybod pwy yw unigolion. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd ymchwilwyr yn dymuno casglu mwy o wybodaeth. Yn yr achosion hyn fe fyddem yn gofyn am eich caniatâd cyn datgelu eich manylion cyswllt. Does dim rhaid i chi gymryd rhan mewn unrhyw astudiaeth ymchwil y cewch wahoddiad i gymryd rhan ynddi ac ni fydd gwrthod yn effeithio ar y gofal a gewch.

Gallwn eich sicrhau fod mesurau rheoli llym iawn ar y ffordd y caff y data ei storio, ei ryddhau a'i ddefnyddio.

Gallwch weld enghreifftiau o'r ffordd y byddwn yn defnyddio data ar gyfer ymchwil yn **www.njrcentre.org.uk** fel rhan o'n Llyfrgell ymchwil.

Data'r NJR a gwybodaeth arall am ofal iechyd

Bydd gwybodaeth am lawdriniaethau a chleifion yn yr NJR yn cael ei defnyddio i gysylltu â gwybodaeth arall am ofal iechyd. Bydd hefyd yn cael ei dadansoddi a'i chyflwyno i lawfeddygon, ysbytai a gwneuthurwyr – heb unrhyw rai o'ch manylion personol – fel rhan o'n gwasanaethau adborth.

Mae gwneud hyn yn gwella gallu'r NJR i fonitro diogelwch cleifion a chanlyniadau cleifion. Mae'n golygu hefyd y gall pobl a sefydliadau sy'n gysylltiedig â gwella llawdriniaethau newid cymalau gael gwell dealltwriaeth a datblygu triniaethau meddygol gwell neu fwy cost-effeithiol.

Beth am edrych ar ein cylchlythyr chwarterol Croniclo'r Cymalau yn **www.njrcentre.org.uk?**

Pa wybodaeth mae'r NJR yn ei darparu i gleifion?

Mae'r NJR yn cyhoeddi Canllaw y Cyhoedd a Chleifion i'w phrif Adroddiad Blynyddol bob blwyddyn. Yn y prif Adroddiad Blynyddol mae dadansoddiad o'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu gan y gofrestrfa, er enghraifft, canlyniadau yn dangos pa mor dda y mae gwahanol fathau o impiadau yn perfformio. Mae Canllaw y Cyhoedd a Chleifion yn ceisio gwneud y data hwnnw yn fwy darllenadwy ac ymarferol ar gyfer cleifion, gofalwyr, teulu a ffrindiau.



Fe gewch chi'r copi diweddaraf o'r canllaw hwn i gleifion ar wefan yr NJR yn ogystal â mwy o wybodaeth am waith yr NJR. Mae'r NJR hefyd yn rhoi gwybodaeth am lawfeddygon ac ysbytai sy'n cynnal llawdriniaethau newid cymalau yn **www.njrsurgeonhospitalprofile.org.uk**

Pwy arall all roi gwybodaeth i mi am newid cymalau?

Bydd eich tîm gofal iechyd (meddyg teulu, ymgynghorydd llawfeddygol, nyrs, ffisiotherapydd, therapydd galwedigaethol) yn gallu ateb cwestiynau am eich gofal unigol.

Ond mae yna lawer o sefydliadau sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol i hysbysu a chefnogi cleifion sy'n cael llawdriniaeth i newid cymal.

Gallech ystyried rhai o'r rhain, o bosib:

Arthritis Care
www.arthritiscare.org.uk/home

Arthritis Research UK
www.arthritisresearchuk.org/arthritis-information

Mae'r ddwy elusen yn aelodau o'r corff ambarél Arthritis and Musculoskeletal Alliance (ARMA).
www.arma.uk.net

NHS Choices
www.nhs.uk

NHS Improvement Enhanced Recovery
http://www.nhsiq.nhs.uk/improvement-programmes/acute-care/seven-day-services/enhanced-recovery

I gael gwybod mwy am yr NJR:

Ewch i'n gwefan yn **www.njrcentre.org.uk**

Ffoniwch linell gymorth yr NJR ar **0845 345 9991**

Anfonwch e-bost at **enquiries@njrcentre.org.uk**

Ysgrifennwch at: **NJR Centre, Peoplebuilding 2, Peoplebuilding Estate, Maylands Avenue, Hemel Hempstead HP2 4NW**

/nationaljointregistry

@jointregistry

Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau
www.njrcentre.org.uk
Gweithio ar ran cleifion, hyrwyddo ansawdd

© Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau. Awst 2014. Gyda diolch i Rwydwaith Cleifion yr NJR am eu sylwadau a'u hawgrymiadau gwerthfawr wrth ddatblygu'r daflen hon.